

WYNEBU'R NEWID YN YR HINSAWDD

Yr Achosion

Mae gwyddonwyr yn priodoli'r cynhesu byd eang, tuedd a welir ers canol yr ugeinfed ganrif, i gyfraniad dynoliaeth at gynyddu'r "effaith tŷ gwydr" - cynhesu sy'n digwydd pan fo'r atmosffer yn dal y gwres sy'n pelydru o'r Ddaear tua'r gofod. Dros y ganrif ddiwethaf, mae crynodiad y carbon deuocsid (CO₂) atmosfferig wedi cynyddu oherwydd y tanwydd ffosil a losgir, megis glo ac olew. Ffactorau cyfrannol yw'r clirio tir, diwydiant a gweithgynhyrchu a nifer o weithgareddau dynol arferol eraill.

Yr Effeithiau


"Yn ei gyfanrwydd, mae'r ystod o dystiolaeth gyhoeddus yn dangos bod costau difrod net y newid yn yr hinsawdd yn debygol o fod yn sylweddol ac o gynyddu dros amser."

- Y Panel Rhynglywodraethol ar y Newid yn yr Hinsawdd





Allyriadau carbon deuocsid (CO₂) yn ôl sector neu ffynhonnell, y Byd

Cyfran o allyriadau carbon deuocsid (CO₂) o hylosgi tanwydd yn ôl sector neu ffynhonnell




Mae gwyddonwyr yn llawn hyder y bydd tymhereddau byd-eang yn parhau i godi am ddegawdau i ddod, yn bennaf oherwydd y nwyon tŷ gwydr a gynhyrchir gan weithgareddau dynol. Mae'r Panel Rhynglywodraethol ar y Newid yn yr Hinsawdd (IPCC), sy'n cynnwys mwy na 13,000 o wyddonwyr o'r Unol Daleithiau a gwledydd eraill, yn rhagweld cynnydd yn y tymheredd o 2.5 i 10 gradd Fahrenheit dros y ganrif nesaf.



Bydd y tymheredd yn parhau i godi



Bydd lefel y môr yn codi 1-4 troedfedd erbyn 2100



Bydd corwyntoedd yn dod yn gryfach ac yn fwy dwys



Mwy o sychder a gwres mawr


WYNEBU'R NEWID YN YR HINSAWDD

Gwneud ein rhan

Mwy o bŵer, dim [llai o] allyriadau

Rydym bellach yn wynebu her ddeuol – mae angen mwy o ynni ond mae angen i ni leihau ein hallyriadau carbon. Mae angen i'r system ynni newid i ddefnyddio ffynonellau glanach ac mae'n rhaid i ynni adnewyddadwy chwarae rhan allweddol er mwyn mynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd.

Mae'r graff hwn, o Energy Outlook 2019 bp, yn egluro amrywiol sefyllfaoedd, yn seiliedig ar gyfradd y trawsnewid ynni. Gallai trosglwyddo'n gyflym o ffynonellau ynni traddodiadol i ynni adnewyddadwy ostwng lefelau'r allyriadau carbon yn ôl yn is na chyfraddau 1980 mewn dim ond 20 mlynedd.



Mae'r newid yn yr hinsawdd yn fater brys a fydd yn effeithio ar bawb, ond os gweithiwn gyda'n gilydd i weithredu yn ôl yr angen er mwyn gwrthbwysu'r cynnydd yn nhymheredd y byd, gallwn gyfyngu ar y difrod dros y blynyddoedd sydd i ddod.

Pam solar?

Gellir ei ehangu'n gyflym, mae'n hyblyg, yn gyflym i'w ddefnyddio ac nid yw'n or-ymwthiol



Dim llygredd

Nid yw cynhyrchu ynni solar yn creu unrhyw allyriadau na chynhyrchion gwastraff niweidiol.



Ffynhonnell adnewyddadwy

Mae'r haul yn adnodd anfeidrol.



Manteision amaethyddol a bioamrywiol


Gellir defnyddio'r tir o amgylch ac o dan araeau solar ar gyfer pori ac i greu cartrefi ar gyfer bywyd gwyllt lle bo hynny'n briodol.



Ôl-troed ysgafn

Pan fydd gosodiad solar wedi cyrraedd diwedd ei oes (gallai fod dros 30 mlynedd), gellir symud y paneli o'r ddaear yn rhwydd a gellir dychwelyd y tir i'w gyflwr gwreiddiol heb fawr o effaith.

Yn 2017, am yr ail flwyddyn, solar oedd y sector unigol mwyaf o ran ychwanegiadau capasiti pŵer byd-eang



Pŵer newydd net ar ôl diwedd oes y fferm (GW)